

CANLLAWIAU I UNEDAU PE2

Teitl y Cynnwys: Sgîl, Gallu, Dysgu a Pherfformiad

Pwyntiau allweddol

- Deall y cysylltiadau rhwng sgîl, gallu, dysgu a pherfformiad
- Dehongli cromliniau dysgu

- **SGÎL** yw 'y gallu a ddysgir sy'n arwain at ganlyniadau rhag-gyflyredig (*pre-determined*) gyda'r sicrwydd mwyaf, gan ddefnyddio'n aml, yr amser byrraf neu'r egni lleiaf neu'r ddau.' Barbara Knapp (1977)
- **GALLU** – mae'n disgrifio'r priodoleddau corfforol sy'n effeithio ar ein potensial ar gyfer camp benodol. Pennir galluoedd i raddau helaeth yn enetig h.y. maen nhw'n naturiol neu'n gynhenid. 'Mae galluoedd motor yn nodweddion cymharol barhaol sy'n gyffredinol yn rinweddau sefydlog sy'n helpu person i wneud gweithred benodol.' (Fleishman)
- Y cyswllt rhwng sgîl a gallu yw'r canlynol: po fwyaf o allu sydd gan unigolyn, hawsaf i gyd y bydd i ddysgu sgiliau sy'n defnyddio'r gallu hwnnw h.y. sgîl yw cymhwyso gallu, a dysgir sgiliau gan ddefnyddio galluoedd sydd yno eisoes.

GALLU MOTOR	SGILIAU SY'N DDIBYNNOL AR Y GALLU
Cydsymud	Cicio pêl, olwyn dro.
Amser Adweithio	Dychwelyd serfiad tennis, rhyng-gipio mewn pêl-rwyd.
Cydbwysedd	Llawsafiad, glanio ar ôl naid.

- **DYSGU** - yw 'y newid mewn ymddygiad sydd fwy neu lai'n barhaol ac sy'n cael ei adlewyrchu mewn newid mewn perfformiad' (Knapp). Mae dysgu yn broses gydol oes – mae hyd yn oed perfformwyr elitaidd mewn chwaraeon yn honni eu bod nhw'n dal i ddysgu am eu camp er mwyn gwella'u perfformiad. Bydd pob dysgwr yn symud trwy'r cyfnodau dysgu o gael cyfleoedd priodol i ymarfer a derbyn adborth.
- **PERFFORMIAD** – arddangosiad o ddatrys problem neu dasg ar adeg benodol h.y. mae'n ffenomen dros dro. Gallwn ni i gyd feddwl am berfformwyr medrus iawn sydd â digonedd o allu sydd weithiau'n rhoi perfformiad gwael.


- **CYSWLLT RHWNG DYSGU A PHERFFORMIAD** – wrth i ddysgu ddigwydd, byddwn fel arfer yn gweld perfformiad yn gwella.
- **CROMLINIAU DYSGU/PERFFORMIAD** – gellir mesur cyfradd dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd:
 - Asesiadau gwrthrychol e.e. profion
 - Asesiadau goddrychol

Gall y gwelliannau hyn gael eu plotio i gynhyrchu cromlin ddysgu, fel y gellir gweld dros gyfnod o amser sut mae perfformiwr yn gwella. Mae amrywiaeth o siapiau i gromliniau dysgu, ac mae pob un yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n ymwneud â chyfradd y dysgu.

CROMLINIAU NODWEDDIADOL:


Llinol

Mae cyfradd y gwella mewn cyfrannedd union â nifer y sesiynau ymarfer – mae gwella cyson.




Cyflymiad negatif

Mae'r siâp hwn yn dangos bod yr unigolyn wedi perfformio'n well yn y sesiynau cynharaf nag yn y sesiynau diweddaraf – mae cyfradd gwella perfformiad yn arafu. Rhesymau posibl dros hyn yw bod y perfformiwr wedi cyrraedd ei botensial, bod y perfformiwr yn derbyn hyfforddiant gwael, bod y perfformiwr wedi diflasu ayb.




Cyflymiad positif

Mae'r siâp hwn yn dangos bod yr unigolyn wedi perfformio'n well yn y sesiynau diweddaraf nag yn y sesiynau cynharaf a bod cyfradd gwella perfformiad yn cyflymu.



Gwastadedd

Yn aml mae hyn yn digwydd pan fo'r mabolgampwr yn ceisio gwneud gormod ac mae wedi gorflino, gallai fod â diffyg cymhelliant, gallai fod wedi cyrraedd ei botensial ayb.



Mae'n bosibl gweld cyfuniad o'r cromliniau hyn i gyd o fewn un gromlin berfformiad ar gyfer unigolyn. Mae cromliniau perfformiad yn helpu hyfforddwyr/athrawon i fonitro perfformiad a rhoi newidiadau priodol yn yr ymarfer er mwyn cynnal datblygiad perfformiad.

Awgrymiadau:


Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu rhoi enghreifftiau ymarferol o alluoedd sy'n cysylltu â sgiliau – gweler y tabl uchod. Cofiwch fod sgil, gallu, dysgu a pherfformiad yn cysylltu â chyfnodau dysgu, adborth, mathau o ymarfer ayb.

Yn ogystal â gallu dehongli cromliniau perfformiad, mae angen i chi hefyd allu awgrymu strategaethau i gynnal datblygiad perfformiad.



Cwestiynau ar arddull cwestiwn arholiad

1. (a) Mae **Ffigur 1** yn gromlin berfformiad ar gyfer mabolgampwr(aig) sy'n dysgu sgil newydd.



- (i) Gan ddefnyddio **Ffigur 1** i'ch helpu chi, nodwch yr hyn sy'n digwydd i berfformiad y mabolgampwr/fabolgampwraig yn **A**, ac eglurwch resymau posibl dros y digwyddiad hwn. [3]
- (ii) Disgrifiwch strategaethau gwahanol y gall hyfforddwr(aig) neu athro/athrawes eu defnyddio i helpu perfformiwr i oresgyn yr hyn sy'n digwydd yn **A**. [3]

Atebion